

07 Mai 2015

Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn croesawu'r cyfle i gyfrannu tystiolaeth er mwyn ystyried egwyddorion cyffredinol Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Trafodir rôl AGIC yn Atodiad 1.

Cyffredinol

1. A ydych yn meddwl y bydd y bil, fel y mae wedi'i ddrafftio, yn cyflenwi'r **amcanion** arfaethedig (sichrau llesiant ar gyfer dinasyddion a gwella ansawdd gofal a chymorth yng Nghymru) **a'r bwriadau** a nodir yn Adran 3 (paragraff 3.15) y Memorandwm Esboniadol? A oes angen deddfwriaeth er mwyn cyflawni'r nodau hyn?

Mae AGIC yn cefnogi amcanion a bwriadau'r Bil hwn, ac yn credu eu bod yn unol â darpariaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, a Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, wrth ganolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer pobl a sichrau eu llesiant.

Mae AGIC yn credu bod angen y ddeddfwriaeth hon, ac mae'n bwysig bod y system reoleiddio'n gallu ymateb i fodelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau a sichrau llesiant ar gyfer dinasyddion yn y dyfodol. Wrth i fwyfwy o bobl dderbyn gofal yn y gymuned ac yn eu cartrefi eu hunain, mae'n bwysig y rhoddir digon o ystyriaeth i leoliadau integredig a gwasanaethau sy'n darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol i bobl.

2. Beth yw'r **rhwystrau** posibl wrth weithredu darpariaeth y Bil (os oes unrhyw rai), ac a yw'r Bil yn rhoi digon o ystyriaeth iddynt?

Rydym yn croesawu'r cyfle i symud i fodel ar gyfer rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaeth, a'r ymdrechion a wneir gan y Bil hwn i symleiddio'r fframweithiau deddfwriaethol ynglŷn â rheoli gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, hoffem nodi y bydd rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru yn parhau i gael ei seilio ar Ddeddf Safonau Gofal (2000), a chanolbwyntio ar sefydliadau a lleoliadau. Felly bydd anghysondebau'n parhau rhwng y sectorau iechyd a gofal y bydd yn rhaid mynd i'r afael â nhw.

3. A ydych yn credu bod unrhyw faterion yn ymwneud â **chydreddoldeb** wrth amddiffyn grwpiau gwahanol o ddefnyddwyr gwasanaeth yn y ddarpariaeth gyfredol yn y Bil?

Dim byd penodol wedi'i nodi

4. A ydych yn credu bod unrhyw beth o bwys **ar goll** yn y Bil, neu a ydych yn credu bod agweddau sydd angen eu cryfhau?

Rheoleiddir gofal iechyd annibynnol yng Nghymru o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru.

Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys rheoleiddio ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol, asiantaethau meddygol annibynnol a deintyddion preifat. O dan ddarpariaeth Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011 (Cymru), mae AGIC yn cofrestru 'sefydliadau ac asiantaethau'. Mae darpariaeth y Bil hwn yn golygu y bydd gofal cymdeithasol yn cael ei reoleiddio trwy fodel ar gyfer rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaeth, ond bydd gwasanaethau iechyd yn parhau i gael eu cofrestru fel 'sefydliadau ac asiantaethau'. Nid yw'r ffiniau rhwng gofal iechyd a gofal cymdeithasol bob amser yn syml, ac mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i sicrhau nad oes gwasanaethau, sefydliadau nac asiantaethau sy'n osgoi darpariaeth y naill gyfundrefn reoleiddio na'r llall.

5. A ydych yn credu y bydd unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn codi o'r Bil?

Dim byd penodol ar wahân i'r rhyngwyneb rhwng gofal iechyd a gofal cymdeithasol a nodwyd uchod.

Darpariaethau yn y Bil

6. Beth yw'ch barn ar y ddarpariaeth yn rhan un o'r Bil ar gyfer **rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol?**

Er enghraifft, symud i fodel ar gyfer rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaeth; ymgysylltu â'r cyhoedd; a phwerau i gyflwyno graddau ansawdd a chodi ffioedd.

Rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaeth

Mae AGIC yn cefnogi symud tuag at fodel ar gyfer rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaeth, ac yn credu y byddai gweithred o'r fath yn rhoi manteision i ddarparwyr gwasanaeth trwy broses gofrestru fwy hyblyg. Byddai hefyd yn rhoi manteision i'r rheoleiddiwr trwy ei alluogi i fynd i'r afael â materion ar lefel y darparwr.

Rydym hefyd yn nodi'r cynnig i gyflwyno rhestr o wasanaethau a reoleiddir y gellir ei diwygio trwy reoleiddio. Bydd yn bwysig sicrhau bod deddfwriaeth yn ddigon hyblyg i gael ei haddasu er mwyn sicrhau y gellir rheoleiddio modelau cyfnewidiol o ddarparu gwasanaethau a datblygiadau ym maes gofal integredig yn briodol.

Ymgysylltu â'r cyhoedd

Mae dull AGIC o arolygu'n seiliedig yn gryf ar archwilio profiad y cleifion a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny. Yn draddodiadol, felly, rydym wedi edrych tu hwnt i gydymffurfiaid i archwilio ansawdd gwasanaeth.

Mae AGIC yn credu bod ymgysylltu â'r cyhoedd yn hanfodol i unrhyw gyfundrefn arolygu. Yn ystod pob arolygiad mae AGIC yn treulio amser yn siarad â chleifion, gofalwyr a phobl eraill er mwyn adrodd am brofiad y claf yn y lleoliad. Mae AGIC hefyd yn defnyddio arolygwr lleyg mewn llawer o'u harolygiadau er mwyn ymgysylltu â'r cyhoedd yn well.

Mae AGIC hefyd yn ymgysylltu â'r cyhoedd trwy wahodd defnyddwyr gwasanaeth i fod yn aelodau o'n Bwrdd Cyngori.

Tryloywder ac atebolrwydd

Mae AGIC yn cydnabod pwysigrwydd rhoi gwybodaeth glir a dealladwy am ansawdd gwasanaethau i'r cyhoedd.

Rydym yn cefnogi'r cynnig y dylai darparwyr orfod cyhoeddi disgrifiad agored a gonest am y gwasanaethau maent yn eu darparu. Rydym yn cytuno y dylai adroddiadau arolygu ac adroddiadau blynyddol fod ar gael i'r cyhoedd, ac rydym yn cyhoeddi ein holl adroddiadau arolygu ar ein gwefan.

Mae AGIC yn gallu deall gwerth potensial system raddio; yn enwedig yn achos gofal cymdeithasol lle mae'n bosibl y bydd nifer o ddarparwyr sy'n darparu gwasanaethau tebyg. Fodd bynnag, bydd yn rhaid ystyried cyflwyno graddau ansawdd yn ofalus iawn. Bydd yn rhaid dysgu gwersi trwy brofiad rheoleiddwyr eraill sydd wedi cyflwyno graddau er mwyn sicrhau bod y system newydd yn ddibynadwy, yn gyson ac yn addas at y diben. Rydym yn cytuno y bydd angen i ni ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cyhoedd gryn dipyn er mwyn penderfynu ar y dull cywir.

Ffioedd: Ers mis Ebrill 2011, mae lleoliadau gofal iechyd annibynnol wedi talu ffi i gofrestru gydag AGIC, o dan ddarpariaeth Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Ffioedd) 2011. Mae'n rhaid talu ffi i gofrestru, i wneud unrhyw newidiadau i'r cofrestriad ac wedyn yn flynyddol er mwyn cynnal y cofrestriad. Mae deintyddion preifat wedi talu ffi i gofrestru gydag AGIC ers mis Ionawr 2009. Byddai'n ymddangos yn deg i ofyn i ddarparwyr gofal cymdeithasol hefyd dalu ffioedd cymesur.

7. **Beth yw'ch barn ar y ddarpariaeth yn rhan 1 o'r Bil ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol?**

Er enghraifft, ystyried canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth mewn adolygiadau o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol, cynnwys y cyhoedd yn fwy, a dyletswydd newydd i adrodd am farchnadoedd lleol ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Mae AGIC yn credu bod yr amrywiaeth arfaethedig o faterion a fydd yn cael eu cynnwys yn arolygiadau AGGCC ac adolygiadau awdurdodau lleol yn ddigon eang.

Rydym yn cefnogi'r syniad y dylai awdurdodau lleol gynnal asesiad o farchnadoedd lleol. Dylent wneud hyn trwy ymgynghori'n agos â'r gwasanaethau iechyd lleol, gan fod tystiolaeth bod pwysau yn y system gofal cymdeithasol yn effeithio ar wasanaethau iechyd. Er enghraifft, lle nad oes darpariaeth gofal cymdeithasol digonol, mae pobl hŷn yn tueddu i aros yn yr ysbyty am gyfnodau hirach nag y byddai eu hanghenion meddygol yn mynnu. Mae hyn yn arwain at bwysau ar welyau mewn rhannau eraill o'r system. Hefyd, mae'n gallu effeithio ar y capasiti tymor hir i fyw'n annibynnol.

8. Beth yw'ch barn ar y ddarpariaeth yn Rhan 1 o'r Bil ar gyfer datblygu **trosolwg o farchnad y sector gofal cymdeithasol**?
Er enghraifft, asesu cynaliadwyedd ariannol a chorfforaethol darparwyr gwasanaethau, a darparu adroddiad cenedlaethol ar gynaliadwyedd y farchnad.

Mae'n bwysig defnyddio'r wybodaeth a'r dadansoddiadau sy'n sail i asesiadau marchnadoedd lleol gyda'i gilydd, er mwyn llywio asesiad strategol ehangach o ddarpariaeth a risg mewn perthynas â gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru.

O fewn yr asesiad risg mae'n glir ei bod yn bwysig bod y rheoleiddiwr yn ystyried iechyd ariannol a chorfforaethol darparwyr yn gyffredinol – yn enwedig darparwyr mawr. Fodd bynnag, hoffem nodi bod cyflwyno gofyniadau sylweddol yn y maes hwn yn debygol o olygu y bydd angen i'r rheoleiddiwr gael staff sy'n gymwysedig mewn meysydd nad ydynt yn gysylltiedig â'r maes yn draddodiadol – fel dadansoddi ariannol manwl.

9. Beth yw'ch barn ar y ddarpariaeth yn Rhan 3 o'r Bil ar gyfer ailenwi ac ailgyfansoddi **Cyngor Gofal Cymru** yn Gofal Cymdeithasol Cymru ac estyn ei gylch gwaith?

Nid oes gan AGIC farn ar ailenwi Cyngor Gofal Cymru.

Mewn perthynas â'r cylch gwaith estynedig, mae AGIC yn nodi y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymgymryd â swyddogaethau gwella. Bydd angen eglurdeb ynglŷn â sut y bydd swyddogaethau gwella Gofal

Cymdeithasol Cymru yn cyd-fynd â'r swyddogaethau gwella yn y gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig o ystyried y tueddiad at gynyddu nifer y gwasanaethau sy'n cael eu hintegreiddio.

O ran y swyddogaeth gyfunedig o reoleiddio gweithwyr proffesiynol, pennu safonau ar gyfer addysg a bod yn gorff gwella, mae'n bwysig bod gwahaniaethu clir rhwng gweithrediad pob rhan o'r corff cyfunedig.

10. Beth yw'ch barn ar y ddarpariaeth yn rhannau 4–8 o'r Bil ar gyfer **rheoleiddio'r gweithlu?**

Er enghraifft, y cynigion i beidio ag estyn cofrestriad i gategorïau newydd o staff, i dynnu cofrestriad gwirfoddol, ac i gyflwyno gorchmynion gwahardd.

Nid oes gennym farn benodol yn hyn o beth.

11. Beth yw'ch barn ar y ddarpariaeth yn Rhan 9 o'r Bil ar gyfer **cydweithredu a chydweithio rhwng cyrff rheoleiddio?**

Mae AGIC yn croesawu'r ddarpariaeth statudol ar gyfer cynyddu cydweithio a chydweithredu. Mae AGIC eisoes yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill fel AGGCC ar arolygiadau thematig fel gweithredu Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid, ac ar waith sydd ar y gweill ar wasanaethau i bobl sydd ag anabledau dysgu.

Fel y rheoleiddiwr a'r arolygiaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd, mae AGIC yn rhannu gwybodaeth yn weithredol ag asiantaethau eraill yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod dull cydgysylltiedig o wella gwasanaethau. Rydym yn trefnu cyfarfodydd rheolaidd lle mae amrywiaeth eang o reoleiddwyr iechyd a gofal yn dod at ei gilydd er mwyn rhannu gwybodaeth a chynlluniau.

Pwerau dirprwyedig

12. Yn eich barn chi, a oes cydbwysedd rhesymol yn y Bil rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar **wyneb y Bil** a'r hyn sy'n dod o dan **is-ddeddfwriaeth a chanllawiau?**

Oes. Bydd llawer o'r manylion wedi'u gadael ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn gofyn am ymgynghoriad ac ystyriaeth, felly, cynamserol fyddai cynnwys hyn ar wyneb y Bil.

Goblygiadau ariannol

13. Beth yw'ch barn ar **oblygiadau ariannol** y Bil fel y ceir yn rhannau 6 a 7 o'r Memorandwm Esboniadol?

Nid oes gennym farn benodol yn hyn o beth.

Unrhyw sylwadau eraill

14. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am adrannau penodol yn y Bil?

Ddim ar hyn o bryd. Mae AGIC yn edrych ymlaen at y cyfle i drafod ein safbwynt yn fanylach mewn tystiolaeth lafar o flaen y pwyllgor.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

Diben

Darparu sicrwydd annibynnol a gwrthrychol i'r cyhoedd ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, gan wneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd i hyrwyddo gwelliannau.

Gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf:** mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- **Didwylledd a gonestrwydd:** yn y ffordd rydym yn adrodd ac yn ein holl ymwneud â rhanddeiliaid
- **Cydweithio:** meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- **Proffesiynoldeb:** cynnal safonau uchel o ddarpariaeth a cheisio gwelliant parhaus
- **Cymesuredd:** sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chymesuredd yn ein dull o weithredu.

Canlyniadau

Rhoi sicrwydd:

Rhoi sicrwydd annibynnol ynglŷn â diogelwch, ansawdd ac argaeledd gofal iechyd trwy reoleiddio effeithiol a thrwy adrodd yn agored ac yn eglur ar ein harolygiadau a'n hymchwiliadau.

Hyrwyddo gwelliant:

Annog a chefnogi gwelliannau mewn gofal trwy adrodd a rhannu arfer da a meysydd lle mae angen gweithredu.

Cryfhau llais cleifion:

Sicrhau bod profiad y claf yn ganolog i'n prosesau arolygu ac ymchwilio.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio ein profiad o ddarparu gwasanaethau i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.